WG35.5.80

# "Dafydd Huws, y Blaenor"

[Y DIWEDDAR MR. DAVID HUGHES, HILL STREET, LLANGOLLEN].

DAFYDD HUWS anwyl! Gristion ffyddlona',
Duwiol ei anian, mor dawel huna;
Ei waith addurna ei hirfaith yrfa,—
O'i fodd llafuriodd,—o'i fedd llefara:
Ei bur hynt o hyd barha—dan wŷn glod,
A'i enw hyglod a berarogla!

Hygar flaenor! hardd gerflunio—ei ddelw
Ar ei ddeulin, heno,
Garwn, a gras yn gwawrio
'N dirion ar ei daerni o.

Hynod iawn fel duwinydd—ydoedd ef;
Diwyd, ddoeth ddisgyblydd;
I'w ddosbarth, ffrwd ddihysbydd
Ei loew ddawn wlawiai ddydd!

Hoffus batriarch, dy barchu—ti gefaist,
Gyfaill, pawb o'th ddeutu;
A gwynfyd dy fywyd fu
Dwyn yr oes dan iau 'r Iesu.

Rehoboth, O! rho heibio—dy alar;
Myn dy delyn eto;
Dy flaenor hoff, di-flino,
Hefo 'i Dad mae 'i wynfyd o.

Llangollen. J. E. J.

HUGH JONES, ARGRAPHYDD, HEOL-Y-CASTELL, LLANGOLLEN.

X205 310256